

# TEITHIAU DAD-DDOFI

Ein gweledigaeth ar gyfer brithwaith o ddad-ddofi ar draws 30% o Brydain


REWILDING BRITAIN





# ARCHWILIO TEITHIAU DAD-DDOFI

**Mae Rewilding Britain yn awyddus i weld brithwaith ysbrydoledig o ddad-ddofi'n digwydd ar draws 30% o'n tir a'n moroedd, lle mae byd natur yn ffynnu ac yn darparu buddion sylweddol i bobl - yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer economïau gwyrdd bywiog; aer, dŵr a phriddoedd iachach; a gwell iechyd a llesiant.**

Yr hyn sydd wrth wraidd dad-ddofi yw'r pwyslais ar adfer prosesau naturiol, megis afonydd sy'n llifo'n rhydd neu berthnasoedd rhwng y rheibiwr a'r ysglyfaeth a, lle bo'n briodol, rhywogaethau coll - gan eu galluogi i greu brithweithiau deinamig o gynefinoedd sy'n newid yn gyson.

Mae'n dod â phobl a chymdeithasau ynghyd i ddod o hyd i ffyrdd o weithio, byw a ffynnu o fewn ecosystemau llewyrchus ac iach. Drwy gydnabod y gall rhoi blaenoriaeth i fyd natur fod yn hynod gynhyrchiol o ran defnydd tir, mae dad-ddofi'n gallu bod o gymorth i ni symud at ddyfodol carbon isel sy'n gyfoethog o ran natur wrth sicrhau buddion gwirioneddol heddiw a gynhyrchwyd yn lleol.

Gall dad-ddofi ddigwydd ar draws amryw o ddulliau. Mae'r rhain yn ddibynnol ar sut ac i ba raddau y mae byd natur yn cymryd yr awenau a chânt eu tywys gan y gymuned, y cyd-destun a'r diwylliant lleol. Nod y darlun a'r diagram canlynol yw rhoi ymdeimlad o'r 'sbectrwm' o ddad-ddofi hwn a sut mae'n bosibl iddo edrych yn ymarferol.

**Mae blaenoriaethu byd natur fel y defnydd mwyaf cynhyrchiol o'r tir ar draws ardaloedd dad-ddofi yn cyflawni sawl budd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol.**

### BUDDION CYMDEITHASOL

- Cyfranogiad cymunedol ystyrlon wrth wneud penderfyniadau
- Cydlyniad cymunedol ac ymdeimlad o le
- Lechyd a llesiant
- Mynediad cynhwysol at natur fwy gwyllt
- Cyfleoedd addysgol

### BUDDION ECONOMAIDD

- Amrywiaeth lewyrchus o fentrau seiliedig ar natur
- Bywoliaethau a ffrydiau refeniw wedi'u hamrywiaethu
- Cynhyrchu bwyd, pren ac adnoddau eraill
- Adfywiad economaidd lleol

### BUDDION ECOLEGOL

- Adferiad ecosystemau a bioamrywiaeth
- Dal/storio carbon a gwydnwch hinsawdd
- Lliniaru rhag llifogydd
- Priddoedd sefydlog ac iach
- Ansawdd dŵr a'i ddal

## ARDALOEDD LLED WYLLT

**Mae'r ardaloedd lled wyllt hyn yn cefnogi ystod amrywiol o ddefnydd tir a mentrau naturiol a arweinir gan brosesau wrth alluogi byd natur i wella a ffynnu.**

### LEFEL 1

Mae gweithgareddau adfer yn sbarduno prosesau naturiol, a all fod yn gyfyng o ran graddfa ond o gymorth i ddarparu cysylltedd. Mae rheolaeth, fel pori lled wyllt, wedi'i harwain yn naturiol gan brosesau. Defnyddir rhai gweithgareddau rheoli gweithredol, e.e. dolydd gwair, i gynnal cynefinoedd prin. Mae mentrau seiliedig ar natur a chynhyrchiant bwyd a phren etc., yn ffynnu.

### LEFEL 2

Mae gweithgareddau adfer yn dod yn eu blaenau a rhoddir ystyriaeth i adfer rhywogaethau coll. Mae amrywiaeth gytbwys o lysysyddion yn dychwelyd. Caiff bridiau gwydn eu defnyddio hyd nes bydd llysysyddion brodorol yn bresennol. Rhoddir blaenoriaeth i adfywiad naturiol, ac mae pobl leol yn cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau dad-ddofi.

### LEFEL 3

Mae brithweithiau deinamig o gynefinoedd yn ymddangos drwy adfywiad ac olyniaeth naturiol. Mae llysysyddion amrywiol sy'n crwydro'n rhydd yn creu patrymau naturiol o aflonyddwch yn y dirwedd. Mae rhywogaethau coll yn cael eu hailgyflwyno. Mae cyfleoedd cyflogaeth lleol a ffrydiau incwm amrywiol yn cefnogi adfywiad cymunedol.

## ARDALOEDD DAD-DDOFI CRAIDD

**Mae byd natur yn gwneud ei orau i annog newidiadau yn yr ardaloedd dad-ddofi craidd hyn.**

### LEFEL 4

I raddau helaeth, mae gwe fywyd byd natur wedi'i hadfer ar draws tirweddau eang sydd wedi'u cysylltu gyda'i gilydd. Mae'r mwyafrif o lysysyddion yn 'wyllt' ac yn gallu dangos ymddygiad heidiol a phori naturiol. Mae'n bosibl y bydd angen cwlingo ychydig lle nad oes ysglyfaethwyr yn bresennol. Mae ystod o 'fentrau gwyllt' yn tynnu sylw pobl drwy ddefnyddio egwyddorion 'gadael dim ar ôl'.

### LEFEL 5

Mae'r we fywyd lawn wedi'i hadfer, yn cynnwys ysglyfaethwyr mwy fel lyncs. Mae llysysyddion mawr yn gallu dangos ymfudiad naturiol a grymoedd heidiol. Mae amrywiaeth eang o bobl yn cymryd rhan weithredol mewn natur wyllt ac yn cael profiad ohoni. Mae cymunedau lleol yn chwarae rhan allweddol mewn llywodraethu, goruchwylio a gwarchod y tir.



# EGLURO LEFELAU DAD-DDOFI



| | ARDALOEDD LLED WYLLT | | | ARDALOEDD DAD-DDOFI CRAIDD | |
|---|---|---|---|---|---|
| | LEFEL 1 | LEFEL 2 | LEFEL 3 | LEFEL 4 | LEFEL 5 |
| **RHEOLAETH NATURIOL A ARWEINIR GAN BROSESAU** | Mae gweithgareddau adfer yn sbarduno adferiad. Cynhyrchiant naturiol a arweinir gan brosesau, e.e. cig a phren. Rhywfaint o reoli cadwraeth. | Mae gweithgareddau adfer (e.e. i adfer afonydd sy'n llifo'n rhydd) a chynhyrchiant naturiol a arweinir gan brosesau yn parhau. Mae rheoli cadwraeth yn lleihau. | Mae rheoli ac echdynnu (e.e. cig a phren) yn lleihau. Mae'r ddau'n canolbwyntio ar wella prosesau naturiol. | Mae lefel sylfaenol o reolaeth yn cael ei chynnal. Cynhelir gweithgareddau echdynnol lle bo hynny'n hanfodol yn unig, e.e. cwlingo ceirw pan nad oes ysglyfaethwyr yn bresennol. | Mae natur yn gofalu drosti'i hun, gyda phrosesau naturiol wedi'u hadfer. Mae ymyrraeth sylfaenol a seilwaith nad yw'n hanfodol yn cael eu dileu. |
| **POBL A CHYMUNEDAU** | Mae cymunedau lleol yn chwarae rhan gynyddol mewn penderfyniadau dad-ddofi, a chanddynt ymdeimlad o berchnogaeth ohonynt, ac mae hyn yn cyflawni buddion cyffredin. Mae pobl yn ymgysylltu â natur fwy gwyllt a chanddynt fynediad at gyfleoedd hamdden, addysgol a gwirfoddol. | | | Mae gan gymunedau lleol ran ystyriol mewn llywodraethu, goruchwylio a gwarchod y tir yn yr hirdymor. Mae gan bobl fynediad cynhwysol i fwynhau natur wyllt. | |
| **ECONOMÏAU SEILIEDIG AR NATUR** | Mae modelau busnes seiliedig ar natur yn cynnal swyddi lleol ar y tir (e.e. rheolwyr stoc, rheolwyr helwriaeth/bywyd gwyllt, rheolwyr ceirw, coedwigwyr) ac yn creu bywoliaethau newydd (e.e. addysg, twristiaeth, ecoleg). Mae cynhyrchion cigoedd a choedwigoedd gwyllt/lled wyllt yn cael eu cynhyrchu. Mae ffrydiau incwm newydd yn ymddangos, megis arian cyhoeddus a chredydau carbon/natur. Mae cymunedau lleol yn cael eu hamrywiaethu a'u hadfywio fel rhan o drawsnewidiad gwledig teg. | | | Mae ystod o fentrau gwyllt yn cyflogi pobl leol, yn y sector twristiaeth, addysg, ymchwil a llesiant er enghraifft. Os yw cwlingo'n angenrheidiol, mae helfeydd cymunedol yn cynhyrchu cig gwyllt. Mae pob gweithgaredd yn defnyddio egwyddorion 'gadael dim ar ôl'. | |
| **PORI A BLAENBORI** | Mae'r ffocws ar adfer y cydbwysedd a'r amrywiaeth o lysysyddion mawr drwy ddefnyddio pori a blaenbori naturiol. Caiff bridiau gwydn o wartheg, merlod a moch eu defnyddio yn lle rhywogaethau coll os oes angen. Mae pob un yn dangos ymddygiad a grymoedd heidiol crwydro'n rhydd naturiol. | | | Mae llysysyddion mawr amrywiol sy'n crwydro'n rhydd yn bresennol, gyda'r nifer leiaf o fridiau eraill yn cael eu defnyddio yn eu lle. Maent yn arddangos grymoedd heidiol naturiol ac ychydig iawn o ymyrraeth sydd ei angen. | Mae'r ystod lawn o lysysyddion gwyllt mawr sy'n crwydro'n rhydd yn ei lle, sy'n arddangos ymfudiad naturiol ac ymddygiad a grymoedd heidiol. |
| **RHYWOGAETHAU** | Mae'r ffocws ar gynyddu helaethrwydd ac amrywiaeth y rhywogaethau. Mae ailgyflwyno, trawsleoli ac atgyfnerthu rhywogaethau coll yn digwydd, lle bo'n briodol. Derbynnir y gall rhai rhywogaethau ddirywio mewn niferoedd yn yr ardal leol. | | | I raddau helaeth, mae helaethrwydd ac amrywiaeth rhywogaethau wedi'u hadfer, ond mae'n bosibl y bydd rhai ysglyfaethwyr mwy neu lysysyddion brodorol yn absennol. | Mae'r we fwyd lawn (system droffig) wedi'i hadfer, gan ddod â gwydnwch ecosystem. Mae ysglyfaethwyr brodorol mawr a rhywogaethau hanfodol yn eu lle. |
| **COETIR A CHOEDWIGAETH** | Mae adfer a chreu coetir brodorol yn hollbwysig. Rhoddir blaenoriaeth i adfywiad naturiol, ac ni fydd plannu coed â chymorth yn digwydd, ac eithrio lle bo angen. Caiff planhigfeydd rhywogaethau unigol eu troi'n goetiroedd naturiol, cymysg. Mae arferion coedwigaeth naturiol a arweinir gan brosesau - fel prysgoedio yn absenoldeb afancod neu goedwigaeth gorchudd parhaus - yn cynhyrchu cynhyrchion pren a choed. Mae'r angen am reolaeth weithredol yn lleihau. | | | Cynhelir lefel sylfaenol o reolaeth dim ond os yw hynny'n hanfodol i gefnogi prosesau naturiol. Ni chaiff pren ei echdynnu a chaiff pren marw ei adael i bydru'n naturiol. | Mae'r prosesau a'r grymoedd coetir naturiol yn gwbl weithredol. Nid oes angen rheolaeth coetir. |
| **AFONYDD A DŴR CROYW** | Caiff prosesau afonydd a gwlypdiroedd eu hadfer, drwy ail-ddolennu, ail-dyfu planhigion ar lannau afonydd, ailgysylltu gorlifdiroedd a lleihau rhediad maetholion. Caiff rheolaeth llifogydd naturiol ei defnyddio lle bynnag y bo modd, gyda'r gwaith hanfodol o amddiffyn llifogydd yn parhau. | | | Mae afonydd yn ymblethu, llifogi a chreu gwlypdiroedd yn naturiol. | Mae afonydd a gwlypdiroedd sy'n gweithredu'n gwbl naturiol wedi'u sefydlu. |
| **HIRHOEDLEDD** | Sicrwydd ymrwymiad i ddad-ddofi yn y tymor canolig. | | | Ymrwymiad i ddad-ddofi'n cael ei sicrhau am byth lle bynnag y bo modd, e.e. drwy statws ardal warchodedig neu gyfamodau cadwraeth. | |

# TIRWEDD DDAD-DDOFI

Bydd unrhyw dirwedd ddad-ddofi'n cynnwys brithwaith o wahanol lefelau ar draws y 'sbectrwm' o ddad-ddofi - cysylltu i mewn ac o amgylch ein trefi a'n dinasoedd, yn ogystal â darparu cerrig camu drwy ardaloedd a reolir yn llawer dwysach. Gall pob ardal anelu at ystod wahanol o lefelau gyda'u teithiau dad-ddofi eu hunain.

## ALLWEDD

- Dad-ddofi lefel 5
- Dad-ddofi lefel 4
- Dad-ddofi lefel 3
- Dad-ddofi lefel 2
- Dad-ddofi lefel 1
- Tir heb ei ddad-ddofi
- Ardaloedd trefol

## NODWEDDION

**A** Gall cymunedau gyd-fyw ochr yn ochr ag ardaloedd a ddad-ddofwyd, sy'n cefnogi economïau seiliedig ar natur.

**B** Mae gweithgareddau adfer yn sbarduno adferiad, gan gynnal swyddi lleol ar y tir.

**C** Mae gan bobl fynediad i brofi natur yn ei holl amrywiaeth, gyda'r we fywyd wedi'i hadfer.

**D** Gall pontydd gwyrdd ddarparu coridorau ecolegol ar draws rhwystrau fel ffyrdd.

**E** Mae mentrau fel cynhyrchu coed yn gynaliadwy yn digwydd ochr yn ochr â choedwigaeth a ffermio.



## EWCH I’N GWEFAN
**rewildingbritain.org.uk**

REWiLDiNG BRiTAiN

2024 © Rewilding Britain

Darlunio: Tom Clohosy Cole

Mae Rewilding Britain yn sefydliad corfforedig elusennol cofrestredig yng Nghymru a Lloegr (rhif 1159373), a’r Alban (rhif SCO45685).
Swyddfa gofrestredig: The Courtyard, Shoreham Road, Upper Beeding, Steyning, West Sussex BN44 3TN